

Y Perchennog / Meddiannydd

Fy Nghyf/My Ref: IF101

Dyddiad/Date: 06/02/2019

Annwyl Syr/Fadam

Cynllun Arfaethedig - Dim Aros ar Unrhyw Adeg (Llinellau Melyn Dwbl) Aneurin Bevan Drive, Pentre'r Eglwys

Efallai eich bod chi'n gwybod eisoes bod y Cyngor wedi cynnal ymgynghoriad diweddar ynglŷn â chynigion i gyflwyno cyfyngiadau aros (llinellau melyn dwbl) yn Aneurin Bevan Drive, Pentre'r Eglwys. Nod hyn yw mynd i'r afael â phryderon sy'n ymwneud â cheir yn peri rhwystr.

Cafodd 15 o lythyrau eu hanfon at drigolion lleol a daeth 7 o atebion i law.

Un o'r prif bryderon a gafodd ei nodi oedd y byddai'r mesurau yma wedyn yn arwain at bobl yn parcio y tu allan i eiddo'r trigolion.

Yng ngoleuni'r sylwadau yma, mae cynllun diwygiedig wedi'i ddatblygu er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon dan sylw. Dylech chi nodi na fydd unrhyw gyfyngiadau ar gyfer yr ardal sy'n syth o flaen yr eiddo preswyl. Byddai hyn yn galluogi'r trigolion i barhau i barcio ar draws eu dreif. Serch hynny, byddai angen i'r heddlu ymdrin ag unrhyw geir sydd wedi'u parcio mewn modd sy'n peri rhwystr.

Mae manylion y cynigion ar y llun amgaeedig yn 101-2, neu mae modd eu gweld ar www.rctcbc.gov.uk/traffig.

Hoffwn i gael eich sylwadau ynglŷn â'r cynlluniau yma. Amgaeaf ffurflen ateb ynghyd ag amlen barod, er hwylustod i chi. Fel arall, efallai hoffech chi ymateb drwy anfon neges ebost i ghwasanaethautraffig@rctcbc.gov.uk Anfonwch eich sylwadau aton ni erbyn 27 Chwefror 2019. Os na fydda i wedi clywed oddi wrthoch chi erbyn hynny, bydda i'n ei chymryd hi'n ganiataol nad oes sylwadau gyda chi ar y cynnig.

Mae'ch sylwadau chi'n bwysig i ni a byddan nhw o gymorth i'r Cyngor wrth i ni ddod i benderfyniad. Bydd unrhyw sylwadau sy'n dod i law yn ein helpu ni i benderfynu a fydd eisiau gwneud unrhyw newidiadau i'r cynigion. Byddwn ni'n ystyried yr holl sylwadau ynglŷn â'r cynllun, ond, fydd dim ymateb ffurfiol iddyn nhw yn ystod y cyfnod yma.

Hyderaf fod yr uchod o gymorth i chi.

Yn gywir

Andrew McGowan
Uwch Beiriannydd, Materion Rheoli Traffig

Tŷ Sardis/Sardis House
Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU
Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU

Ffôn/Tel: 01443 425001
Ffacs/Fax: 01443 490414

Chris Lee C.P.F.A
Cyfarwyddwr Cyfadrn y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen | Group Director, Corporate and Frontline Services

Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

The Owner / Occupier

Fy Nghyf/ My Ref: IF101

Dyddiad/ Date: 06/02/2019

Dear Sir / Madam

Proposed No Waiting at Any Time (Double Yellow Lines) Aneurin Bevan Drive, Church Village

As you may be aware, the council recently consulted on proposals to introduce waiting restrictions (double yellow lines) in Aneurin Bevan Drive, Church Village to address concerns regarding obstructive parking.

15 letters were sent out and 7 responses received.

A main concern raised was that, if the restrictions were introduced as proposed, parking would be displaced to outside of the residential properties.

In view of the comments received, a revised scheme has been developed to address these concerns. It should be noted that the area directly fronting the residential properties will be free of any restrictions. This would allow residents to continue to be able to park across their driveways however; any obstructive parking would have to be dealt with by the police.

Details of the proposals are shown on the attached drawing 101-2. You may also wish to view the proposals at www.rctcbc.gov.uk/traffic

I shall be pleased to receive your observations on these proposals. For your convenience, a pro forma and postage paid addressed envelope is enclosed. Alternatively you may wish to respond by e-mail to trafficservices@rctcbc.gov.uk Responses should be returned with your observations by 27 February 2019. If I do not hear from you by that date, I shall assume that you have no comment to make on the proposals.

Your comments are important to us and will help the Council in its decision making process. Any comments received will help us decide whether to make changes to the proposals and all observations relating to the scheme will be taken into consideration, however the Council will make no formal response to your comments at this stage.

I trust the above is of assistance.

Yours faithfully

Andrew McGowan
Senior Engineer, Traffic Management

Tŷ Sardis/Sardis House
Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU
Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU

Ffôn/Tel: 01443 425001
Ffacs/Fax: 01443 490414

Chris Lee C.P.F.A
Cyfarwyddwr Cyfadrn y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen | Group Director, Corporate and Frontline Services

Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhwch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.